



social care
institute for excellence

Dysgu digidol yn natblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

Dysgu o COVID-19 a llywio dulliau yn y dyfodol





social care
institute for excellence

Gwybodaeth am SCIE

Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth yn gwella bywyd pobl o bob oedran trwy gyd-gynhyrchu, rhannu a chefnogi'r defnydd o'r wybodaeth a'r dystiolaeth orau sydd ar gael am yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol. Rydym ni'n asiantaeth flaenllaw ar gyfer cefnogi gwelliant ac yn elusen annibynnol sy'n gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi oedolion, teuluoedd a phlant ar draws y Deyrnas Unedig. Hefyd, rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cysylltiedig fel gofal iechyd a thai.

Rydym yn gwella ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion a phlant trwy:

- nodi a rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio a beth sy'n newydd
- cefnogi pobl sy'n cynllunio, yn comisiynu, yn cyflwyno ac yn defnyddio gwasanaethau i roi'r wybodaeth honno ar waith
- llywio, ysbrydoli a dylanwadu ar gyfeiriad ymarfer a pholisi yn y dyfodol.

Ysgrifennwyd gan Daniel Jupp Kina a Rebekah Luff

Cysylltwch â info@scie.org.uk

Cyhoeddwyd yn gyntaf ym Mhrydain ym Tachwedd 2022 gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth

© SCIE Cedwir pob hawl

Social Care Institute for Excellence
Isosceles Head Office
One, High Street
Egham TW20 9HJ

www.scie.org.uk

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
Cefndir	4
Canfyddiadau.....	4
Argymhellion	5
1. Cyflwyniad.....	7
1.1 Amcanion.....	7
1.2 Dulliau.....	7
2. Adolygiad o dystiolaeth.....	9
2.1 Diffiniadau dysgu digidol	9
2.2 Galluogwyr allweddol dysgu digidol	11
2.3 Buddion dysgu digidol.....	12
2.4 Heriau a rhwystrau rhag dysgu digidol.....	12
3. Canfyddiadau	15
3.1 Profiadau cadarnhaol – beth weithiodd yn dda	15
3.2 Buddion dysgu digidol.....	18
3.3 Heriau i ddysgu digidol.....	19
3.4 Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer dulliau yn y dyfodol	26
4. Casgliad	29
5. Argymhellion	30
6. Cyfeiriadau	32
7. Atodiad.....	34
Methodoleg yr adolygiad o dystiolaeth.....	34

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Yn ystod y pandemig, bu cynnydd yn y defnydd o ddysgu digidol, i alluogi staff gofal cymdeithasol rheng flaen i gael at hyfforddiant a datblygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau ymchwil i ddeall effeithiau, buddion a heriau dysgu digidol i'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn nodi pwyntiau dysgu allweddol ac yn rhoi argymhellion am ddulliau dysgu digidol yn y dyfodol.

Cynhaliom adolygiad o dystiolaeth, ynghyd â gweithdai a chyfweliadau â: rheolwyr y gweithlu mewn awdurdodau lleol ac arweinwyr rhanbarthol; darparwyr gofal cymdeithasol; darparwyr hyfforddiant; rheolwyr Gofal Cymdeithasol Cymru; a gweithwyr rheng flaen.

Canfyddiadau

- **Cafwyd rhai profiadau cadarnhaol** – chwaraeodd awdurdodau lleol (ALlau), darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol ran hanfodol yn natblygiad cyflym seilwaith digidol, darparu cyfarpar i sefydliadau lleol, a gwella adnoddau digidol. Cefnogwyd rhai o'r mentrau hyn gan gyllid a ddarparwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae mentrau i ddatblygu sgiliau a llythrennedd digidol yn allweddol i gefnogi staff, helpu i godi hyder a gwella mynediad at ddysgu digidol.
- **Mae buddion clir yn sgil dysgu digidol** – gall gynnig hyblygrwydd i ddysgwyr, y gallu i ddysgu ar eu cyflymder eu hunain, a chyfleoedd am ddysgu annibynnol. I ddarparwyr, gall llai o deithio gan staff a chyrhaeddiad ehangach dysgu digidol ei wneud yn fwy cost-effeithiol o'i ddarparu ar raddfa.
- **Mae heriau hefyd** – gall problemau cysylltedd, mynediad cyfyngedig at gyfarpar, ansawdd rhai adnoddau digidol, ynghyd â sgiliau a llythrennedd digidol cyfyngedig ymhlith y gweithlu, sy'n rhwystrau rhag manteisio ar ddysgu digidol, rwystro ymdrechion dysgu digidol. O ran cyflwyno dysgu digidol, dywedodd pobl fod angen iddo fod yn fwy rhyngweithiol, ynghyd â chefnogi lles dysgwyr. Gall perthnasoedd a dynameg grŵp fod yn gyfyngedig, gan leihau cyfleoedd am ddysgu gan gymheiriaid. O'i ddatblygu'n lleol neu ar raddfa fechan, mae cost dysgu digidol yn uchel.
- **Cyfrannodd cyfranogwyr lawer o awgrymiadau defnyddiol ar gyfer dulliau yn y dyfodol** – roedd pobl am weld cydbwysedd rhwng sesiynau digidol a sesiynau wyneb yn wyneb, hyfforddiant sy'n ymarferol ac yn rhyngweithiol, adnoddau o ansawdd uchel, a chefnogaeth ar gyfer dysgu annibynnol. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwella llythrennedd digidol staff rheng flaen yn cynnwys creu rhaglen hyrwyddwyr digidol a chanolfannau galw heibio. Awgrymodd pobl greu platfform dysgu i Gymru gyfan, a all gynnal a rheoli dysgu gyda ffocws ar brofiad y dysgwr.

Argymhellion

Bwriedir i'r argymhellion hyn fod yn gam cyntaf tuag at lywio dulliau ar gyfer dysgu digidol yng Nghymru yn y dyfodol.

Lefel polisi a lefel strategol

- **Mabwysiadu dull Cymru gyfan ar gyfer dysgu digidol** – gan gyd-gynhyrchu â Gofal Cymdeithasol Cymru, ALLau, darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff rheng flaen.
 - **Creu grŵp llywio Cymru gyfan** i oruchwylio'r gwaith o greu plattform dysgu digidol Cymru gyfan.
 - **Creu plattform dysgu digidol Cymru gyfan sy'n 'siop un stop'** i guradu, cynnal a chyfeirio at adnoddau dysgu perthnasol, gyda ffocws ar brofiad y defnyddiwr a chynhwysiant.
 - **Creu pasbortau dysgu digidol**, gyda system gyffredinol ar gyfer cofnodi presenoldeb a chwblhau, a darparu diweddariadau am hyfforddiant a hysbysiadau.
- **Creu cyfleoedd am gydweithredu rhwng ALLau** – i rannu dysgu a safbwyntiau am strategaeth, ac i annog cysondeb mewn dysgu digidol ar draws Cymru.
- **Rhoi arweiniad ar ddysgu digidol, cyfunol ac wyneb yn wyneb** – rhoi cyngor ar y mathau mwyaf effeithiol/priodol o ddarparu yn ôl anghenion dysgwyr, anghenion y pwnc, anghenion asesu a chost-effeithiolrwydd.
- **Parhau â chymorth cyllid a'i ehangu.**

Awdurdodau lleol

Cefnogi dysgwyr:

- **datblygu llythrennedd digidol** – hyrwyddwyr digidol, canolfannau cymorth galw heibio a hyfforddiant sgiliau sylfaenol.
- **cydbwyso dysgu digidol a dysgu wyneb yn wyneb** – ar sail anghenion dysgwyr
- **rhoi amodau dysgu cefnogol i ddysgwyr** – amser wedi'i neilltuo, cyfarpar digonol a sgiliau sylfaenol (llythrennedd digidol).

Cefnogi darparwyr:

- **parhau â'r cymorth a gynigir a'i ehangu** – i ddarparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu sgiliau digidol a chael at gyfarpar.
- **datblygu rhwydweithiau lleol ar gyfer darparwyr hyfforddiant** – i rannu arfer gorau.

Darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol

- **cynyddu'r ffocws ar ddatblygu sgiliau staff dysgu a datblygu**

- **canolbwyntio ar anghenion dysgwyr** – mabwysiadu ymhellach ddulliau rhyngweithiol a dulliau seiliedig ar brofiadau
- **annog dysgwyr i roi eu dysgu ar waith** – defnyddio cofnodion dysgu ymarfer, dilyn cysylltiadau i fyny, ac arweiniad i reolwyr ar sut i gynorthwyo staff.

Rheolwyr a staff gofal cymdeithasol

- **dylai rheolwyr gynorthwyo staff i roi dysgu ar waith** – trafod enghreifftiau go iawn yn ystod sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd
- **dylai rheolwyr gynorthwyo staff cyn hyfforddiant ac ar ôl hyfforddiant** – i gael at ddeunyddiau cyn hyfforddiant a chwblhau gweithgareddau ar ôl dysgu
- **dylai aelodau staff barhau i ddatblygu eu llythrennedd a'u moesau digidol** – mynd ati i geisio cymorth a defnyddio adnoddau a gynigir gan yr ALI.

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau ymchwil i ddeall effeithiau, buddion a heriau dysgu digidol i'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar y meysydd hyfforddi y mae'r 20 rheolwr y gweithlu sy'n gweithio ar draws 22 awdurdod lleol (ALI) Cymru yn eu rheoli. Yn ogystal ag adolygu tystiolaeth, casglom safbwyntiau a phrofiadau rheolwyr y gweithlu awdurdodau lleol, darparwyr hyfforddiant, rheolwyr darparwyr gofal cymdeithasol, a staff gofal cymdeithasol rheng flaen dros y 2 flynedd ddiwethaf.

Golygai cyfyngiadau oherwydd COVID-19 fod gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi gorfod addasu'n gyflym iawn i ffurfiau newydd o weithio. Yn ogystal â datblygu ffurfiau newydd o ymgysylltu ag unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau, ymatebodd ALLau, darparwyr gwasanaethau a darparwyr hyfforddiant i heriau rheoli eu gweithlu a darparu cyfleoedd i hyfforddi a datblygu. Chwaraeodd dysgu digidol ran allweddol yn yr hyfforddiant a'r datblygiad a oedd ar gael i weithwyr rheng flaen yn ystod y pandemig. Nid yw'r graddau y bydd dysgu digidol yn parhau yng nghyd-destun parhaus COVID-19 a'r tu hwnt yn hysbys eto, ond mae cyfle sylweddol i ddysgu o'r ddwy flynedd ddiwethaf.

I lywio dulliau yn y dyfodol a chefnogi datblygiad pellach ddulliau a gweithgareddau'r gweithlu cenedlaethol, comisiynodd Gofal Cymdeithasol Cymru SCIE i nodi'r pwyntiau dysgu allweddol, yr arferion da, a'r heriau'n gysylltiedig â dysgu digidol yn ystod pandemig COVID-19.

1.1 Amcanion

Nod y prosiect oedd mynd i'r afael â'r amcanion canlynol:

- Deall sut mae cyfleoedd dysgu digidol wedi effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig, gan amlygu galluogwyr allweddol, heriau, a rhwystrau rhag datblygu'r gweithlu.
- Gwneud argymhellion i ddarparwyr hyfforddiant, ALLau a darparwyr gwasanaethau wrth iddynt gyflwyno hyfforddiant i'r gweithlu yn ddigidol, neu gan ddefnyddio dulliau cyfunol.
- Llywio dulliau dysgu digidol Gofal Cymdeithasol Cymru, gan roi argymhellion ac amlygu 'beth sy'n gweithio'n dda' a sut y gallant gynorthwyo ar lefel genedlaethol yn y dyfodol.

1.2 Dulliau

Dylanwadodd adolygiad o dystiolaeth a chasglu data gyda grwpiau cyfranogwyr ymchwil perthnasol ar yr ymchwil.

Adolygiad o dystiolaeth – cynhaliom adolygiad/astudiaeth gwmpasu o'r dystiolaeth a oedd ar gael o'r Deyrnas Unedig (DU) dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Canolbwyntiodd ar fapio'r ffyrdd y cyflwynwyd dysgu digidol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, gan ddiffinio dysgu digidol ac amlygu galluogwyr allweddol, buddion a heriau i ddysgu digidol. Dewiswyd cyfanswm o 90 cyfeiriad i'w sgrinio a chynhwyswyd 22 ohonynt yn yr adolygiad.

Cyfnod cwmpasu – ar ôl adolygu'r dystiolaeth, cynhaliwyd tri chyfweiliad cwmpasu gyda rheolwyr y gweithlu i fireinio ymhellach y cwmpas, y cwestiynau ymchwil a'r dulliau.

Casglu data ansoddol

Cyfranogwyr – siaradom ag wyth darparwr hyfforddiant, pedwar rheolwr darparwyr gofal cymdeithasol, deg rheolwr y gweithlu mewn awdurdodau lleol, saith arweinydd rhanbarthol y gweithlu, tri aelod staff gofal cymdeithasol rheng flaen a thri arweinydd gwelliant Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dulliau – casglom ddata rhwng Ebrill a Gorffennaf 2022 gan ddefnyddio'r dulliau casglu data canlynol:

- **Gweithdy gyda rheolwyr y gweithle** – gweithdy 90 munud gyda rheolwyr y gweithlu mewn awdurdodau lleol ac yn rhanbarthol i drafod profiadau yn ystod y pandemig, dysgu allweddol a dulliau yn y dyfodol.
- **Cyfweliadau manwl** – cyfweliadau manwl awr o hyd gyda darparwyr hyfforddiant, rheolwyr darparwyr gofal cymdeithasol, rheolwyr y gweithlu ALLau, arweinwyr rhanbarthol y gweithlu, staff gofal cymdeithasol rheng flaen, ac arweinwyr gwelliant Gofal Cymdeithasol Cymru.
- **Gweithdy gydag arweinwyr rhanbarthol y gweithlu** – gweithdy 90 munud i drafod canfyddiadau allweddol a pherthnasedd ac ymarferoldeb yr argymhellion.

Cwmpas yr ymchwil – canolbwyntiodd yr ymchwil ar feysydd hyfforddiant y mae rheolwyr y gweithlu ALLau yn eu rheoli. Fe wnaeth hyn gynnwys amrywiaeth o wahanol leoliadau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau preswyl, gofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth eraill i blant, oedolion a gwasanaethau oedolion hŷn. Roedd y blynyddoedd cynnar a gofal plant y tu hwnt i'r cwmpas.

Er nad oedd gweithwyr cymdeithasol wedi'u cynnwys yn benodol o fewn y cwmpas, mae'r ymchwil hon yn gysylltiedig â meysydd hyfforddiant sy'n gorgyffwrdd â'u gweithgareddau datblygiad proffesiynol.

Dadansoddiad – nodom y themâu allweddol o'r data gan ddefnyddio meddalwedd arbenigol (MAXQDA). Trosglwyddwyd recordiadau pob cyfweiliad a nodiadau'r gweithdai i'r feddalwedd i'w dadansoddi.

Cydsyniad gwybodus – rhoddwyd taflen wybodaeth i'r holl gyfranogwyr, ar ddiogelu data, cyfrinachedd, anhysbysrwydd, gwybodaeth gefndir am yr ymchwil, a manylion cyswllt ar gyfer cael gwybodaeth bellach neu roi'r gorau i gymryd rhan. Rhoddodd pob cyfranogwr gydsyniad ar lafar neu yn ysgrifenedig cyn pob cyfweiliad neu weithdy, a rhoddwyd cyfle iddynt ofyn cwestiynau a thrafod unrhyw broblemau'n gysylltiedig â'r ymchwil a'u cyfranogiad.

Cyfyngiadau'r astudiaeth

Roedd recriwtio rheolwyr darparwyr gofal cymdeithasol a staff rheng flaen yn arbennig o heriol, a rhoddwyd cynnig ar amrywiaeth o ddulliau. Efallai nad oedd y pwnc o ddiddordeb mawr iddynt, ond mae'n debygol fod amser a gallu yn rhwystrau pennaf. O'r herwydd, mae cipolygon gan staff rheng flaen yn benodol yn fwy cyfyngedig yn yr adroddiad hwn, ond dylid nodi bod safbwyntiau'r rhai a gymerodd ran yn cyd-fynd â safbwyntiau rheolwyr y gweithlu ALLau a darparwyr hyfforddiant.

2. Adolygiad o dystiolaeth

Yn yr adran hon, cyflwynwn y negeseuon allweddol o'r adolygiad o dystiolaeth. Trefnir y cynnwys gan ddilyn y pedwar maes allweddol a lywiodd yr adolygiad hwn. Dechreuwn trwy gyflwyno diffiniadau o ddysgu digidol cyn symud ymlaen i amlinellu galluogwyr allweddol, buddion a heriau i ddysgu digidol.


2.1 Diffiniadau dysgu digidol

Nid yw'r diffiniad o ddysgu digidol yn gyson ar draws ymchwil addysgol na gofal cymdeithasol ac, yn aml, defnyddir amrywiaeth o dermau yn gyfnewidiol (Singh and Thurman, 2019). Mae'n bwysig mynd i'r afael â diffiniadau i sicrhau bod gan sefydliadau (gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru), rheolwyr a staff ddealltwriaeth gyffredin. Gall diffiniadau amrywio rhwng termau ehangach fel dysgu ar-lein (Kourgiantakis and Lee, 2020; Blake *et al.*, 2022) a hyfforddiant ar-lein (Bryer and Heledd, 2021), a geirfa â mwy o ffocws sy'n cyfeirio at elfennau penodol o ddysgu digidol, fel dysgu symudol (Basak *et al.*, 2018) ac anogaeth rithwir (Kobulsky *et al.*, 2020).

Mae Vindaca and Lubkina (2020) yn diffinio dysgu digidol yn fras fel proses "a all naill ai fod yn ddigymell, yn anymwybodol, neu wedi'i chynllunio a'i threfnu, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau addysgol wedi'u hystemyn gan dechnoleg, gan gynnwys dysgu cyfunol, gwrthdro, ar-lein a phersonoledig" (t.179). Gan ddefnyddio dull tebyg, mae Basak *et al.* (2018) yn diffinio bod dysgu digidol yn "unrhyw fath o ddysgu sy'n cael ei hwyluso gan dechnoleg neu gan arfer sefydliadol sy'n defnyddio technoleg yn effeithiol" (t.194). Gan ddefnyddio'r diffiniad ehangach hwn, dosbarthom ddysgu digidol yn gysyniad ymbarél sy'n cynnwys agweddau eraill ar ddysgu digidol, gan gynnwys dysgu electronig (e-ddysgu) a dysgu symudol.

Rydym wedi adeiladu ar y diffiniadau hyn i ddatblygu cysyniad ymbarél o ddysgu digidol ar gyfer yr ymchwil hon. Mae Ffigur 1 yn dangos sut rydym wedi dwyn ynghyd y gwahanol weithgareddau sy'n rhan o ddysgu digidol ar gyfer datblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ffigur 1: Dysgu digidol yng Nghymru



Dysgu digidol - Yr elfennau dysgu digidol allweddol yn y diagram yw:

- **Sesiynau digidol wedi'u hwyluso** – gelwir y rhain hefyd yn e-ddysgu a “dysgu wedi'i ymestyn gan dechnoleg” yn y llenyddiaeth, a chânt eu hwyluso gan athro neu hyfforddwr ac maent yn digwydd ar-lein trwy sesiynau wedi'u recordio (anghydamserol) neu sesiynau byw (cydamserol) trwy blatfformau fideo-gynadledda. Nid yw'n cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb, ond mae'n caniatáu i gyfranogwyr a hyfforddwyr ryngweithio drwy fforymau, sgwrsiau gwe, galwadau fideo ac offer rhyngweithiol. Hefyd, gall gael ei gyfuno ag e-ddysgu a dysgu annibynnol ar-lein (Wheeler, 2012).
- **E-ddysgu** – caiff dysgu ei hwyluso gan adnoddau digidol sydd ar gael ar blatfformau a systemau rheoli dysgu (LMS) y gall y dysgwr gael atynt ar unrhyw adeg. Gall gynnwys adnoddau rhyngweithiol fel fideos, cwisiau a gemau. Fel arfer, bydd cynnwys yn cael ei drefnu yn ôl pynciau, gyda threfn resymegol ac, yn aml, mewn fformatau dysgu byr (Faustmann *et al.*, 2019).
- **Dysgu annibynnol ar-lein** – mae'r dysgwr yn defnyddio'r we i chwilio a chael at ddogfennau, fideos, ffeithluniau, gweminarau a phodlediadau er mwyn cael gwybodaeth am bwnc o ddewis. Gall gael ei lywio gan hyfforddwr/goruchwyliwr neu gall y dysgwr ei wneud yn annibynnol (Singh and Thurman, 2019).
- **Dysgu cyfunol** - mae'n gyfuniad o un elfen dysgu digidol neu fwy gyda dysgu wyneb yn wyneb nad yw'n ddigidol. Gall fod yn seiliedig ar ddysgu wyneb yn wyneb gan hyfforddwyr a'i hwyluso gan adnoddau digidol, neu'n gyfuniad o sesiynau digidol ac wyneb yn wyneb. (Faustmann *et al.*, 2019).
- **Dysgu wyneb yn wyneb wedi'i hwyluso gan adnoddau digidol** – rhan o ddulliau dysgu cyfunol yn cynnwys sesiynau dysgu personol wedi'u hwyluso gan adnoddau dysgu digidol, gan gynnwys platfformau, offer, systemau a dysgu ar-lein.
- **Dysgu wyneb yn wyneb (nad yw'n ddigidol)** – dysgu personol, wedi'i hwyluso gan athro neu hyfforddwr heb ddefnyddio'r elfennau dysgu digidol a ddisgrifir uchod.

Diffiniad ymarferol o ddysgu digidol at ddibenion y prosiect hwn, ac i'w ystyried mewn cynllunio gan Ofal Cymdeithasol Crymu yn y dyfodol, yw:

Unrhyw fath o ddysgu sydd wedi'i hwyluso gan dechnoleg ar-lein neu ddigidol, naill ai'n fyw neu wedi'i recordio/paratoi ymlaen llaw. Mae hyn yn cynnwys sesiynau ar-lein wedi'u hwyluso gan hyfforddwr, e-ddysgu wedi'i hwyluso gan blatfformau a modiwlau digidol, dysgu annibynnol ar-lein (trwy negeseuon testun, fideos, gweminarau a phodlediadau), a dysgu cyfunol sy'n cyfuno sesiynau digidol ac wyneb yn wyneb.

2.2 Galluogwyr allweddol dysgu digidol

Fe wnaeth y dystiolaeth a ddadansoddwyd gynnwys adolygiadau o fentrau dysgu digidol, gan amlygu'r ffactorau hynny sy'n cyfrannu at ddatblygiad mwy effeithiol y gweithlu trwy ddysgu digidol.

Rhai o'r ffactorau allweddol a ystyriwyd yn alluogwyr dysgu digidol oedd:

Datblygu llythrennedd digidol y gweithlu – bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar effeithiolrwydd datblygu'r gweithlu. Mae'n set o "sgiliau, gwybodaeth ac agweddau" y mae eu hangen i "gael at, defnyddio, a chreu" gwybodaeth a chynnwys dysgu digidol (Julien yn La Rose and Detlor, 2021, t. 600). Bydd yn dylanwadu ar hyder aelodau staff a gall wneud y profiad o ddefnyddio platfformau digidol yn gyfforddus ac yn gadarnhaol, gan leihau rhwystrau rhag dysgu (Uprichard, 2020).

Cymhwyso dysgu i ymarfer – mae cysylltu cynnwys dysgu digidol ag ymarfer dyddiol aelodau staff yn ffordd bwysig o wneud y cynnwys yn berthnasol yn uniongyrchol, gan gynyddu'r nifer sy'n dysgu a gwella deilliannau. Nodwyd amrywiaeth o strategaethau ar gyfer cysylltu dysgu digidol â materion ymarferol yn y sylfaen dystiolaeth a adolygwyd. Roedd y strategaethau allweddol yn cynnwys:

- Anogaeth (Kobulsky *et al.*, 2020): strategaeth effeithiol yw hon i atgyfnerthu dysgu pynciau cymhleth a chynorthwyo aelodau staff i newid eu hymddygiad a chreu arferion newydd ar sail y cynnwys a ddysgwyd mewn sesiynau digidol. Gall ddarparu rhagor o strwythur ac atebolrwydd er mwyn annog datblygiad parhaus.
- Hyrwyddwyr arbenigol (Jenkins *et al.*, 2020), i gynorthwyo aelodau staff i fyfyrion ar y cynnwys a ddysgwyd a chymhwyso'r wybodaeth yn eu hymarfer. Gall hyrwyddwyr fod yn effeithiol hefyd wrth gynorthwyo aelodau staff sydd heb lawer o lythrennedd digidol, gan eu helpu i fagu hyder i ddefnyddio platfformau a dyfeisiau digidol.
- Sesiynau dilyn i fyny a chefnogaeth barhaus (Jenkins *et al.*, 2020), i roi cyfle i aelodau staff drafod cynnwys y dysgu y tu hwnt i'r platfform digidol, gan eu galluogi i gael at gymorth pellach trwy drafodaeth grŵp mewn cyfarfodydd tîm a gweithdai, goruchwyliaeth ddilynol a pheynnau cymorth a chofnodion dysgu ar ôl hyfforddiant.

2.3 Buddion dysgu digidol

Nodom chwe budd dysgu digidol sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol:

Gwella mynediad aelodau staff at wybodaeth berthnasol, wedi'i safoni (Kennedy and Yaldren, 2017; Keenan *et al.*, 2020) – gall dysgu digidol gynyddu hyder aelodau staff i ddefnyddio platfformau digidol a'u hannog i gael at adnoddau digidol pellach. Gall hyn ganiatáu am barhau â'u dysgu'n annibynnol, gan ddefnyddio adnoddau digidol i ymgynghori â nhw pan fydd angen.

Cefnogi dysgu pynciau sefyllfaol a chymhleth (Keenan *et al.*, 2020) – un o fanteision allweddol dysgu digidol yw'r posibilrwydd o ddefnyddio darnau fideo, lluniau, animeiddio ac adnoddau rhyngweithiol gweledol eraill a all gynorthwyo aelodau staff i ddeall senarios cymhleth yn well. Gall hyn fod yn ddefnyddiol wrth ganiatáu i aelodau staff drafod sefyllfaoedd, fel ymddygiadau heriol a phyliau ffitiau, a'u harsylwi'n ofalus, gan roi cyfle i ddeall y risgiau a thrafod strategaethau i gefnogi unigolion yn y sefyllfaoedd hynny.

Caniatáu mynediad at amrywiaeth o offer addysgu technegol ac addysgol (Regmi and Jones, 2020) – bydd datblygiad parhaus offer technegol ac addysgol newydd yn cefnogi athrawon a hyfforddwyr i fabwysiadu dulliau creadigol sy'n hwyluso dysgu a rhyngweithio rhwng cymheiriaid. Mae hyn yn cynnwys offer ar gyfer cydweithredu a rhyngweithio, cyfathrebu, cofnodi dysgu ac asesu deilliannau.

Hyblygrwydd a chyfleustra (Cohen and McGill 2020; Estyn, 2021) – gellir dadlau mai mantais fwyaf hysbys dysgu digidol yw y gall helpu aelodau staff i ffitio'r sesiynau hyfforddiant o gwmpas yr adegau pan fyddant ar gael a'u hanghenion penodol. Hefyd, mae'n allweddol wrth ganiatáu i aelodau staff ddewis cyflymder y dysgu a chael at gymorth pellach rhwng sesiynau os bydd angen (Regmi and Jones, 2020).

Cael at hyfforddiant mewn llai o amser ac am lai o gost (Blake *et al.*, 2022) – gall hyblygrwydd dysgu digidol gyfrannu at ostwng y costau sy'n gysylltiedig â theithio. Mae gallu pennu cyflymder yr hyfforddiant yn ôl yr amseroedd pan fydd aelodau staff ar gael yn golygu bod modd rheoli'r amser y mae ei angen i gwblhau'r hyfforddiant yn unigol, gan leihau'r effaith ar y capasiti darparu a chapasiti'r gwasanaeth.

Dull systematig ar gyfer dysgu (Regmi and Jones, 2020) – yn aml, bydd dysgu digidol yn mabwysiadu dull mwy systematig ar gyfer dysgu o gymharu â ffurfiau addysgu a hyfforddi mwy traddodiadol. Mae dulliau dysgu digidol cyffredin o drefnu cynnwys a chynnal dysgu'n cynnwys symud o'r syml i'r cymhleth, gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth mewn ffordd gydgyssylltiedig a dilyn rhesymeg glir, a chrynhoi a chysylltu adrannau dysgu.

2.4 Heriau a rhwystrau rhag dysgu digidol

Hefyd, nododd yr adolygiad o dystiolaeth heriau a rhwystrau'n gysylltiedig ag agweddau ar ddysgu digidol.

Lefelau isel o lythrennedd digidol ymhlith pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol (Tobi and Liz, 2021) – un o'r heriau allweddol i ddysgu digidol effeithiol yw'r diffyg sgiliau a gwybodaeth ddigidol ymhlith aelodau staff gofal cymdeithasol. Gall problemau

sy'n amrywio o fewngofnodi a chael at blatfformau, i weithredu dyfeisiau a gosod adnoddau sain a fideo yn ddigonol, effeithio'n sylweddol ar brofiadau dysgu. At hynny, gall lefelau isel o lythrennedd digidol effeithio ar seiber-ddiogelwch a diogelu data, lle nad yw aelodau staff yn gwybod am ffurfiau cyfathrebu diogel neu nid ydynt yn gallu eu defnyddio.

Mynediad cyfyngedig at gyfarpar ac adnoddau digidol – adroddwyd yn helaeth bod hyn yn rhwystr mawr rhag dysgu digidol yn natblygiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn ehangach yn y DU (Enback, 2020; Bryer and Heledd, 2021). Er y buddsoddi yn ystod y pandemig a chynnydd yn y cyfarpar a ryddhawyd i wasanaethau (Comisiynydd Plant Cymru, 2020), mae'r her yn parhau ac mae'n cyfyngu'n sylweddol ar fynediad staff gofal cymdeithasol at ddysgu digidol.

Roedd heriau'n gysylltiedig â mynediad at gyfarpar ac adnoddau digidol yn cynnwys (Uprichard, 2020):

- Diffyg cyfarpar: nid oedd dyfeisiau ar gael i staff eu defnyddio neu roeddent yn gorfod rhannu dyfeisiau â chydweithwyr.
- Hen gyfarpar a/neu feddalwedd: mewn rhai achosion, roedd hen fersiynau o Windows ar gyfarpar neu nid oedd gallu gan ddyfeisiau i redeg adnoddau digidol rhyngweithiol yn foddhaol.
- Diffyg cymorth technegol: nid oedd mynediad at gymorth technegol yn amserol neu roedd diffyg cymorth digonol i roi cyngor neu ddatrys camweithio meddalwedd neu galedwedd.
- Problemau cysylltedd: mynediad cyfyngedig at gysylltiad cyflym a chyson â'r rhyngrwyd.

Amser prin ar gael i gymhathu a myfyrio – oherwydd llwythi gwaith trwm, fe wnaeth staff gofal cymdeithasol elwa o hyblygrwydd dysgu digidol ac roeddent yn hyfforddi pan roeddent ar gael (Kelleher et al., 2022). Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod staff yn aml yn neidio rhwng tasgau a hyfforddiant digidol yn gysylltiedig â'u hymarfer heb gyfle i drafod a myfyrio ar eu dysgu. Gall hyn greu teimladau o unigedd, lleihau eu hyder a mwyhau rhwystrau rhag dysgu (Kobulsky et al., 2020).

Gall datblygu adnoddau dysgu digidol fod yn gymhleth (Estyn, 2021) – mae cynhyrchu adnoddau dysgu a'u rhyddhau trwy blatfformau yn gofyn am sgiliau digidol penodol nad ydynt ar gael yn aml o fewn timau hyfforddi a datblygu. Gan amlaf, mae angen hyfforddi a datblygu er mwyn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i aelodau staff.

Mae dysgu digidol yn apelio'n llai i rai aelodau staff (Jenkins et al., 2020) – gall dysgu digidol fod yn llai effeithiol na hyfforddiant wyneb yn wyneb i gyfran o aelodau staff. Gall lefelau isel o lythrennedd digidol a lefelau isel o hyder i ddefnyddio platfformau digidol effeithio ar hyn ymhellach, gan ddylanwadu ar ansawdd eu profiad a'r canlyniadau a gyflawnir, a rhoi amgyffrediad negyddol iddynt o ddysgu digidol.

Materion perthynas a lles (Regmi and Jones, 2020) – gall y rhyngweithiadau cyfyngedig iawn rhwng cymheiriaid, a rhwng cymheiriaid a hyfforddwyr, mewn amgylcheddau dysgu digidol, ar y cyd â lefelau uchel o straen a gorbryder, "diffyg disgyblaeth myfyrwyr a phrinder hunanefeithlonrwydd" (t.7), ac ymgysylltu gwael, fod yn rhwystr mawr rhag dysgu. Er nad

yw'r materion hyn yn benodol i ddysgu digidol, gall y rhyngweithiadau cyfyngedig a lefel ynysu uwch debygol unigolion mewn dysgu digidol waethygu materion sy'n gysylltiedig â lles ac effeithio ar ddysgu ymhellach. (Lister *et al.*, 2021).

Trosiant staff a chostau cysylltiedig (Keenan *et al.*, 2020) – dywedir yn aml bod lefel uchel trosiant staff ym maes gofal cymdeithasol yn her sylweddol i ddysgu digidol a dysgu wyneb yn wyneb. Mae'n effeithio ar allu'r gwasanaeth, gan gynyddu amser a chostau hyfforddiant, ac yn tarfu ar feithrin a datblygu sgiliau'r tîm. Hefyd, gall effeithio ar y cymorth anffurfiol ar ôl hyfforddiant y gall aelodau staff newydd ei gael gan gydweithwyr mwy profiadol.

3. Canfyddiadau

Yn yr adran hon, cyflwynwn yr hyn y dywedodd pobl wrthym yn y cyfweiliadau. Trefnir yr adran hon o dan bedwar prif bennawd: profiadau cadarnhaol - beth weithiodd yn dda; buddion dysgu digidol; heriau i ddysgu digidol; ac atebion a awgrymwyd gan gyfranogwyr a'u barn am ddulliau yn y dyfodol.

3.1 Profiadau cadarnhaol – beth weithiodd yn dda

Clywom am nifer o brofiadau cadarnhaol a gefnogodd ddatblygiad dysgu digidol yn ystod y pandemig. Bydd y rhan fwyaf o'r profiadau hyn yn parhau i fod yn berthnasol gan eu bod yn awgrymu atebion posibl i heriau i ddysgu digidol yn y dyfodol. Trefnir profiadau cadarnhaol o dan 5 categori allweddol:



3.1.1 Seilwaith

Trafododd cyfranogwyr agweddau gwahanol ar y seilwaith dysgu digidol, gan gynnwys platfformau, adnoddau dysgu digidol, systemau rheoli dysgu, mynediad at gyfarpar, a chysylltedd.

Datblygiad cyflym seilwaith dysgu digidol – fe wnaeth yr angen i addasu yn wyneb y newidiadau a orfododd y pandemig annog awdurdodau lleol a sefydliadau lleol (darparwyr gofal cymdeithasol a hyfforddiant) i ddatblygu adnoddau'n gyflym a symud eu gweithgareddau hyfforddi a datblygu i amgylcheddau digidol. Arweiniodd hyn at ddatblygu seilwaith yn gyflym, yn enwedig yn ymwneud â gweithredu platfformau a systemau.

“Roedd y pandemig yn wych ar gyfer gwthio pethau yn eu blaen, byddwn i wedi hoffi pe na bai'r pandemig wedi digwydd ond mae'n wir hefyd ei fod wedi'n helpu ni, mae'n gromlin [dysgu] yr oedd angen i ni fod arni [...] ac rydym ychydig yn bellach ar hyd y gromlin honno nawr, gallwn ddechrau gweithredu pethau a'i gwneud yn rhan o'n diwylliant [...] ac os na fydd pobl ar y daith nawr, bydd angen iddynt fod cyn hir.”

(Darparwr gofal cymdeithasol)

Yn aml, amlygodd cyfranogwyr fod datblygiad seilwaith dysgu digidol eisoes yn rhan o'u cynlluniau, ond anogodd y pandemig lawer i flaenoriaethu a datblygu'n gynt o lawer.

Seilwaith presennol – roedd rhai ALLau a sefydliadau wedi dechrau datblygu seilwaith dysgu digidol cyn y pandemig a rhoddodd hyn fantais iddynt. Er enghraifft, roedd rhai sefydliadau eisoes yn dibynnu ar fodiwlau e-ddysgu i hyfforddi eu gweithlu ac roeddent wedi gweithredu system rheoli dysgu (LMS) cyn y pandemig. Galluogodd hyn iddynt ganolbwyntio

ar wella'r cynnwys a gynigir ar eu platfformau a symud ymlaen, gan wynebu llai o heriau na sefydliadau y bu'n rhaid iddynt ddatblygu mwy o'u seilwaith.

Darparu mynediad at gyfarpar – roedd prinder cyfarpar (gliniaduron, llechi ac atodion sain a fideo) yn un o'r heriau allweddol i ddysgu digidol ac roedd gan ALLau rôl ganolog o ran mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y pandemig.

"Rydym wedi gallu cefnogi unrhyw un yr oedd angen cyfarpar arnynt [...] mae gennym gyfuniad o liniaduron, llechi ac ystafell ddosbarth digidol [...] felly nid yw cyfarpar yn broblem enfawr."

(Rheolwr y gweithlu)

"Mae ein tîm datblygu'r gweithlu [yn yr ALI] wedi rhoi taflunydd a sgrin i ni. [O'r blaen] byddai'r holl staff yn casglu mewn ystafell yn edrych ar un sgrin gliniadur [...] ond mae'n well o lawer nawr."

(Darparwr gofal cymdeithasol)

Diogelu dysgu digidol – datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru gyfres o adnoddau hyfforddiant diogelu ar-lein a'i lansio yn 2019. Yr enw arno yw 'platfform diogelu', ac amlygodd cyfranogwyr fod y pecyn e-ddysgu dwyieithog yn fenter gadarnhaol, a ddisgrifiwyd yn "ddefnyddiol i staff a sefydliadau" (Rheolwr y gweithlu). Mae'n dod yn adnodd allweddol i'r sector gofal cymdeithasol er mwyn cael at hyfforddiant ac arweiniad ar weithdrefnau diogelu, ac mae'n cynnig dull cyson ar gyfer diogelu. Fodd bynnag, amlygodd cyfranogwyr hefyd y gallai rhyngwyneb y platfform gael ei wella, gyda mwy o ffocws ar "brofiad y defnyddiwr" (Rheolwr y gweithlu) a llywio mwy greddfól.



3.1.2 Cefnogi dysgwyr

Gan mai llythrennedd digidol yw un o'r heriau allweddol i ddysgu digidol yng Nghymru, mae ALLau a sefydliadau lleol wedi mabwysiadu gwahanol strategaethau i gefnogi dysgwyr a chynyddu mynediad at ddysgu digidol. Disgrifir rhai o'r mentrau hyn isod.

Hyrwyddwyr digidol – dyma aelodau staff sy'n neilltuo rhan o'u hamser i gefnogi cydweithwyr sy'n wynebu anawsterau wrth gael at adnoddau digidol. Er yr amlygwyd mai hyn oedd un o yrwyr allweddol llythrennedd digidol ehangach, pwysleisiodd cyfranogwyr hefyd fod yr amser sydd ar gael a galwadau cystadleuol yn rhwystr mawr rhag y model hwn.

"Ystyrir ei fod yn gam i fyny i wneud mwy am yr un arian [...]. Dylai fod yn swyddog gweithredu, swydd amser llawn neu ran-amser, ond rydym ni'n dibynnu ar y gweithlu i wneud beth allan nhw."

(Rheolwr y gweithlu)

Cafodd atebion i'r her hon eu trafod hefyd gyda chyfranogwyr; roedd yr awgrymiadau'n cynnwys swyddi pwrpasol, amser wedi'i neilltuo i ganiatáu i staff presennol neilltuo rhan o'u capasiti i'r rôl hon, a phe cyn hyfforddiant a chymorth mwy integredig.

Canolfan galw heibio ar-lein – roedd hon yn ganolfan galw heibio rithwir y gallai aelodau staff gysylltu â hi dros y ffôn neu ar-lein er mwyn cael help gydag amrywiaeth o broblemau digidol, gan gynnwys sgiliau sylfaenol fel mewngofnodi i systemau, llywio plattfformau a chael hyfforddiant.

Cymorth un i un – roedd rhai ALLau yn gallu darparu cymorth un i un i aelodau staff a oedd yn wynebu heriau wrth gael at adnoddau dysgu digidol. Gwnaed hyn yn bennaf trwy offer cymorth o bell rithwir (rhannu sgrin), y gellid eu defnyddio i helpu aelodau staff i gael at adnoddau digidol.

Rhwydweithiau cymorth cymheiriaid i ddysgwyr – gweithiodd hyn yn dda i aelodau staff a oedd yn ymgymryd â modiwlau hyfforddiant hirach gyda sesiynau rheolaidd. Anogodd yr ALI y fenter hon a chafodd ei chynnal yn anffurfiol gan aelodau staff, gan roi lle iddynt ofyn cwestiynau, trafod heriau, a rhoi a chael cymorth.

Adnoddau dysgu ychwanegol – cefnogodd y mentrau hyn ddysgwyr i gael at adnoddau ychwanegol ac anogodd ddysgu annibynnol. Fe wnaeth gynnwys dosbarthu e-gynodebau oedd yn canolbwyntio ar gyfleoedd dysgu, annog defnyddio cymunedau ymarfer digidol, a chyfleoedd i fynychu gweminarau a chynadleddau.



3.1.3 Gweithio gyda'n gilydd

Cydweithredu rhwng timau dysgu a datblygu – pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd y bartneriaeth rhwng timau dysgu a datblygu ar draws ALLau. “Helpodd pawb ei gilydd” (gweithdy rheolwyr y gweithlu) ac roedd timau dysgu a datblygu'n gallu “addasu'n gyflym (gweithdy rheolwyr y gweithlu) a datblygu adnoddau dysgu digidol i gefnogi staff gofal cymdeithasol.

“[Mae angen i ni gydnabod] pob tîm dysgu a datblygu ar draws yr ALLau am eu hymateb i'r pandemig, sut y gwnaethant addasu a datblygu deunyddiau hyfforddiant newydd ar-lein. Roedd yn newid enfawr i bawb, ac rwy'n credu bod pawb wedi mynd yr ail filltir i wneud y newid.”

(Rheolwr y gweithlu)

Aelodau staff gweinyddol – roedd yr aelodau staff hyn yn hollbwysig wrth gefnogi timau dysgu a datblygu a thimau rheoli, i addasu a mynd i'r afael â'r heriau a orfododd y pandemig arnom. Roedd staff gweinyddol yn hanfodol wrth ddelio â thasgau technegol ac ymarferol, gan gynnwys “sefydlu sesiynau [digidol], eu rhoi mewn calendrau”, gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael, ac “anfon a chasglu ffurflenni gwerthuso” (rheolwr y gweithlu). Roedd y newid i ddysgu digidol wedi gwneud y tasgau hyn yn fwy cymhleth a llwyddodd timau gweinyddol i ennill sgiliau, addasu'n gyflym a chefnogi timau dysgu a datblygu â materion technegol a gweinyddol.



3.1.4 Gwella dysgu digidol

Gwneud dysgu digidol yn fwy rhyngweithiol a seiliedig ar brofiadau – buddsoddodd darparwyr hyfforddiant a thimau dysgu a datblygu amser ac adnoddau mewn gwella'r profiad dysgu. Golygai datblygiad sgiliau fod hyfforddwyr yn gallu defnyddio'r adnoddau

rhyngweithiol a oedd ar gael yn well (e.e. ystafelloedd grŵp, sylwadau, codi llaw ac ati, a gynigir gan MS Teams a Zoom), gan wella ymgysylltiad dysgwyr. Enghraifft bellach a amlygwyd oedd defnyddio'r pecynnau a ddanfonwyd at ddysgwyr cyn y sesiwn hyfforddi yn cynnwys gwrthrychau i'w defnyddio yn y sesiwn i ysgogi a darparu profiad synhwyraidd (corfforol).

Cynyddodd ansawdd y dysgu digidol – cytunodd cyfranogwyr fod ansawdd y dysgu digidol a gyflwynir wedi gwella'n sylweddol ers dechrau'r pandemig. Fe wnaeth hyn gynnwys sgiliau gwell hyfforddwyr, defnyddio adnoddau'n well, gwell cynnwys a sesiynau mwy rhyngweithiol. Er bod hyn yn gadarnhaol iawn, cydnabuwyd hefyd mai dechrau taith hir yw hi, a bod gwella ansawdd dysgu digidol yn barhaus yn her o hyd.



3.1.5 Cyllid a chymorth

Cymorth ariannol a ddarperir gan ALLau – roedd hyn yn gymorth hanfodol a gynigiwyd i ddarparwyr hyfforddiant, gan helpu i gyfrif am gostau ychwanegol datblygiad sgiliau, cyfarpar a thrwyddedau meddalwedd. Caniataodd i ddarparwyr addasu'n gyflym a pharhau i ddarparu gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad yn ystod y pandemig.

Cymorth ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru – amlygodd ALLau bwysigrwydd y cymorth a gafwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu seilwaith, darparu cyfarpar a datblygu sgiliau. Caniataodd hyn i ALLau gynnig cymorth pellach i bartneriaid a darparwyr ac roedd yn allweddol wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol i ddysgu digidol yn ystod y pandemig.

Cyfleoedd cyllid ychwanegol – elwodd rhai ALLau o gael at gyllid gan sefydliadau allanol, gan roi adnoddau pellach iddynt ddatblygu dysgu digidol a chefnogi partneriaid. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y cymorth ariannol a gafwyd trwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) i gefnogi datblygiad llythrennedd digidol a sgiliau digidol.

3.2 Buddion dysgu digidol

Nododd cyfranogwyr nifer o fuddion pwysig yn sgil dysgu digidol, sy'n berthnasol o hyd y tu hwnt i'r pandemig.

Cost-efeithiolrwydd o'i ddatblygu ar raddfa fawr – mae datblygu dysgu digidol ar lefel genedlaethol neu ranbarthol yn gostwng costau lleol datblygu seilwaith ac adnoddau yn sylweddol. Byddai gweithredu ar raddfa fawr yn cyfrannu at leihau "dyblygu gwaith" (rheolwyr y gweithlu) sy'n deillio o ddatblygu hyfforddiant yn lleol ac yn dameidiog ar bynciau sy'n berthnasol yn genedlaethol ac a fyddai'n elwa o ddull unedig.

Cyrhaeddiad ehangach – o safbwynt darparwyr ac ALLau, un o fanteision allweddol dysgu digidol yw'r posibilrwydd o gofrestru mwy o bobl fesul sesiwn o ardaloedd gwahanol. Mae hyn yn cynyddu nifer y bobl sy'n bresennol ac mae'n gwella cost-efeithiolrwydd fesul sesiwn.

Hyblygrwydd – gall dysgwyr gwblhau gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u hamserlen waith. Er enghraifft, gallant gwblhau darnau llai o'r hyfforddiant ar y tro pan fo'n gyfleus i'w gwaith, gyda llai o effaith ar eu rôl rheng flaen. Mae

hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y problemau presennol o ran prinder staff, recriwtio, a chapasiti'r gwasanaeth.

Cyflymder dysgu – mae posibilrwydd i ddysgwyr addasu cyflymder dysgu yn ôl eu harddull ddysgu eu hunain. Mewn sawl achos, gallant rannu sesiynau yn ddarnau byr, gan roi mwy o amser iddynt gymathu'r negeseuon a deall y cynnwys. Hefyd, mae'n caniatáu iddynt gymryd eu hamser i ofyn cwestiynau i'w cydweithwyr a'u rheolwyr a chael cymorth ychwanegol.







Dim angen teithio – heb yr angen am deithio, mae dysgwyr a hyfforddwy'r yn arbed amser, gan leihau'r effaith yn sylweddol ar y capasiti darparu i'w sefydliad. Hefyd, gall leihau faint o egni corfforol sy'n cael ei dreulio ar weithgareddau hyfforddi a datblygu gan fod pobl yn teimlo'n "llai blinedig ac yn fwy parod" (gweithiwr rheng flaen) ar ôl sesiynau.

Cyfleoedd hyfforddi a datblygu amlach – mae costau is yn gysylltiedig â logisteg, yr amser sy'n cael ei dreulio'n teithio, a gosod cyfarpar, yn golygu bod modd cynnig sesiynau hyfforddi'n amlach, gan gynnig mwy o opsiynau a hyblygrwydd i ddysgwyr fynyachu.

Mwy o gyfleoedd am ddysgu annibynnol – mae dysgu digidol yn annog datblygiad sgiliau digidol a gall newid y berthynas sydd gan ddysgwyr ag adnoddau digidol, gan roi mwy o hyder iddynt a'i wneud yn rhan o'u trefn ddyddiol. Mae hyn yn caniatáu iddynt gael at adnoddau ychwanegol lle y gallant ddarllen, gwyllo fideos a gweminarau, a dysgu'n fwy annibynnol.

3.3 Heriau i ddysgu digidol

Yn yr adran hon, cyflwynwn yr heriau allweddol a nododd yr ymchwil hon i ddysgu digidol. Trafodwyd yr heriau hyn yng nghyd-destun y pandemig ac yn y cyd-destun ar ôl y pandemig, ac amlygodd cyfranogwyr fod yr holl heriau'n parhau'n berthnasol i ddulliau yn y dyfodol gan fod angen mynd i'r afael â nhw yn y tymor hir neu yn barhaus. Cyflwynwn yr heriau hyn o dan chwe chategori:

					
Seilwaith, capasiti ac ansawdd adnoddau	Darparu, cofnodi presenoldeb a chwblhau, a gwerthuso sesiynau hyfforddiant	Perthnasoedd a dynmeg grŵp	Sgiliau digidol a llythrennedd digidol	Newid diwylliannol	Cost dysgu digidol



3.3.1 Seilwaith, capasiti ac ansawdd adnoddau digidol

Prinder staff a phwysau ar y gwasanaeth – mae hyn yn her barhaus i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn y DU ac mae'n cael effaith ar ddysgu digidol yng Nghymru. Disgrifiodd cyfranogwyr sut roedd y pandemig wedi'i gwneud hi'n fwy anodd recriwtio aelodau staff, gan arwain at ddiffyg staff digonol mewn nifer o wasanaethau.

“Sylweddolodd llawer o bobl nad oeddent am weithio ym maes gofal 24 awr. Mae’r pandemig wedi gwneud i bobl werthfawrogi amser gyda’u teulu dipyn mwy [...] ac rydyn ni nawr yn cael trafferth mawr â recriwtio.”

(Darparwr gofal cymdeithasol)

Mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau ac “mae wedi bod yn anodd cael amser i hyfforddi ac i gefnogi aelodau staff” (Rheolwr y Gweithlu). Yn ogystal ag effeithio ar gapasiti, mae problemau pwysau ar y gwasanaeth yn effeithio ar les aelodau staff, gan leihau eu cynhyrchedd a’u parodrwydd i ddysgu a datblygu.

“Mae wedi gadael ei ôl ar lawer o staff ac maent wedi blino’n lân o hyd, [dim ond] nawr ein bod yn dod allan ohoni y mae pobl yn ddechrau sylweddoli beth rydym ni wedi bod drwodd.”

(Darparwr gofal cymdeithasol)

ALLau a sefydliadau llai – mae’r gwahaniaeth mewn maint yn effeithio’n uniongyrchol ar yr adnoddau sydd ar gael gan ALLau a sefydliadau lleol, gyda rhai â “hanner neu draean y capasiti” (gweithdy rheolwyr y gweithlu) o gymharu ag ALLau eraill. Mae hyn yn golygu bod anghysondeb yn lefel datblygiad seilwaith digidol ar draws ALLau yng Nghymru y mae “angen ei ystyried” (rheolwr y gweithlu) a mynd i’r afael ag ef mewn dulliau ar gyfer dysgu digidol yn y dyfodol.

Problemau cysylltedd – er gwaethaf y gwelliannau i gysylltedd mewn rhai rhanbarthau ac i rai sefydliadau, dyma yw un o’r prif broblemau i ddysgu digidol yng Nghymru o hyd.

“Dydw i ddim yn defnyddio fy nyfais gwaith. Rwy’n defnyddio fy ffôn symudol oherwydd rwy’n gwybod y caf i wifi da, [mae’r cysylltiad yn wael yma yn aml], felly galla’ i gerdded o gwmpas a chwilio am signal gwell.”

(Gweithiwr rheng flaen)

Mae’r problemau cysylltedd a nodwyd yn gysylltiedig â “dibynadwyedd a chyflymder” (rheolwr y gweithlu) y cysylltiad a gallant fod yn gysylltiedig â:

- **Seilwaith cysylltedd** – mae mynediad rhai rhanbarthau at gysylltiad cyflymder uchel dibynadwy “yn enwog am fod yn wael” (darparwr hyfforddiant); ymddengys fod hon yn broblem ranbarthol yn gysylltiedig â seilwaith.
- **Cyfarpar a chysylltiad digonol** – nid yw rhai sefydliadau’n gallu cael at y cyfarpar y mae ei angen i wella signalau (modemau, trosywyr, donglau 4G/5G), a/neu nid oes ganddynt yr adnoddau i uwchraddio pecynnau cysylltu, neu nid oes ganddynt yr annibyniaeth i newid i well darparwyr rhyngwyd.
- **Mynediad at gyfarpar** – mae gan fwy o sefydliadau fynediad at fwy o gyfarpar erbyn hyn trwy grantiau a chynlluniau benthyca gan ALLau, fodd bynnag, ni ystyrir bod lefel y cyfarpar sydd ar gael yn ddigonol o hyd. Dywedodd cyfranogwyr fod aelodau staff yn aml yn gorfod rhannu dyfeisiau a chael at sesiynau hyfforddiant mewn grŵp. Er bod hyn yn iawn i rai mathau o hyfforddiant, gall effeithio’n negyddol ar eu profiad dysgu cyfan.

“[Mae angen mwy o gyfarpar] nawr bod angen cofrestru'r holl staff erbyn mis Hydref.”

(Rheolwr y gweithlu)

“Roeddwn i'n methu siarad â chi ar y cyfrifiadur gan nad oes ganddo sain, felly rwy'n defnyddio fy nghyfrif personol; mae hynny'n effeithio hefyd gan nad oes gennym y cyfleuster cywir bob amser... mae wedi bod yn broblem i aelodau staff eraill.” “Mae gennym ddau liniadur yn yr adeilad i bawb [dros hanner cant o aelodau staff].”

(Gweithwyr rheng flaen)

Mae mynediad at gyfarpar yn fater brys o hyd, o ystyried disgwyliad rheolwyr y gweithlu awdurdodau lleol y bydd aelodau staff yn dibynnu'n fwy ar blatfformau digidol i reoli'u dysgu a chydymffurfio â gofynion datblygu newydd yng Nghymru.

Ansawdd adnoddau digidol a ffocws ar brofiad y defnyddiwr – mae ansawdd a dyluniad adnoddau digidol yn effeithio'n uniongyrchol ar allu pobl i gael at yr adnoddau hynny a'u defnyddio. Hyd yn oed pan roedd aelodau staff yn meddu ar sgiliau sylfaenol a hyder i ddefnyddio adnoddau digidol (gweler Adran 3.3.4 ar lythrennedd digidol), roedd cael at rai platfformau a'u defnyddio “yn rhy anodd” (gweithiwr rheng flaen). Yn ôl rheolwyr, roedd rhai platfformau “ddim yn addas i'w diben” (Rheolwr y Gweithlu). Mae hyn yn gwaethgu problemau llythrennedd digidol trwy greu heriau ychwanegol i aelodau staff wrth ddatblygu'u sgiliau sylfaenol a'u hyder. Hefyd, mae'n cynyddu nifer yr aelodau staff y mae angen cymorth arnynt, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi datblygu sgiliau sylfaenol a hyder ond sy'n wynebu heriau o hyd oherwydd problemau ansawdd a dyluniad adnoddau digidol.



3.3.2 Darparu, cofnodi presenoldeb a chwblhau, a gwerthuso sesiynau hyfforddiant

Amlygodd cyfranogwyr y pwyntiau allweddol canlynol yn gysylltiedig â darparu hyfforddiant a chasglu gwybodaeth berthnasol i fonitro a gwerthuso sesiynau:

Casglu adborth a gwerthuso – mae'n fwy anodd casglu adborth ar sesiynau hyfforddiant ac adnoddau a gyflwynir yn ddigidol. Bydd canran lai o ddysgwyr yn llenwi a dychwelyd ffurflenni gwerthuso o gymharu â sesiynau wyneb yn wyneb. Rhai o'r atebion a gynigiwyd yw rhyddhau tystysgrifau yn amodol ar ddychwelyd ffurflenni gwerthuso a gwella cyfathrebu cyn ac ar ôl hyfforddiant, gyda'r opsiwn o negeseuon testun, nid dim ond negeseuon e-bost.

Pynciau sensitif – gall hyfforddiant sy'n cynnwys trafod pynciau a all effeithio ar les dysgwyr achosi heriau o'i gyflwyno'n ddigidol. Er enghraifft, gall themâu'n gysylltiedig â diogelu, sy'n aml yn gallu cynnwys trafod trais ac erledigaeth, ysgogi emosiynau ymhlith dysgwyr, yn enwedig dysgwyr â hanes o drawma. Yn yr achosion hyn, mae'n hanfodol bod hwyluswyr a hyfforddwyr yn gallu darllen iaith y corff, cael sgysiau preifat i wirio lles dysgwyr a rhoi cymorth unigol, pan fo angen. Mae rhai atebion i hyn yn cynnwys nodi cydweithwyr sy'n gallu estyn allan i ddysgwyr a chytuno ar brotocol i wirio'u lles, gan gytuno y dylai pob dysgwr gadw'u camera ymlaen drwy'r amser a bod person ychwanegol yn y tîm darparu sy'n gyfrifol am wirio lles dysgwr a chynnal ymyriadau un i un a gwneud atgyfeiriadau am gymorth pellach lle bo'r angen.

Lles digidol – yn aml, enwyd gorflinder sgrin yn un o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar les dysgwyr. Mewn ffyrdd gwahanol, disgrifiodd cyfranogwyr sut roedd cael eu hamlygu i sesiynau digidol hirach yn gallu effeithio ar y profiad dysgu. I'r rhan fwyaf ohonynt, mae rhyngweithio ar-lein yn fwy blinedig na rhyngweithio wyneb yn wyneb, gan ei fod yn gofyn am fwy o sylw a ffocws.

“Oherwydd bod yr ymennydd yn ceisio sylwi ar y micro-signalau hyn o iaith y corff ac oherwydd y mymryn o oedi gyda'r sgrin, mae'n golygu bod [yr ymennydd] yn brwydro [...] yn gyson [...] i ddadansoddi a'i adrodd yn ôl i chi, gan fynd drwy'r cylch hwnnw mewn ffordd nad oedd wedi arfer gwneud, sy'n golygu ei fod yn fwy blinedig.”

(Darparwr hyfforddiant)

Cofnodi presenoldeb a chwblhau – er bod platfformau e-ddysgu'n cynnig ffyrdd effeithiol o gynhyrchu adroddiadau ar bresenoldeb a chwblhau, mae'r her yn parhau mewn mathau eraill o ddysgu digidol. Mewn mathau mwy annibynnol o ddysgu, fel darllen ar-lein a gwyllo fideos, gwrando ar bodlediadau a mynd i weminarau, nid yw'n bosibl cofnodi presenoldeb a chwblhau yn effeithiol bob amser.

Gall e-ddysgu gael ei ystyried yn broses 'ticio blwch' – mae rhai modiwlau e-ddysgu'n canolbwyntio ar gydymffurfio ac ymddengys eu bod yn blaenoriaethu cofnodi presenoldeb, cwblhau a graddau. Gall y diffyg ffocws ar brofiad y dysgwyr annog dysgwyr i flaenoriaethu cwblhau'r dasg a 'thicio'r blwch' yn hytrach na chanolbwyntio ar y cynnwys a'r broses ddysgu.

“Dyma beth mae'n rhaid i chi di wneud, rhaid i chi wyllo hwn a bydd y system yn dweud wrth y bos p'un a wnaethoch chi hynny ai peidio er mwyn gallu ticio'r blwch”

(Rheolwr y gweithlu)

Yn ogystal, disgrifiodd cyfranogwyr sut gall dysgwyr hepgor rhannau o fideos ac adrannau'r modiwl i gwblhau'r hyfforddiant yn gyflymach mewn ambell achos, ond gallu "ticio'r blwch" o hyd. Ymhlith rhai atebion a drafodwyd oedd mwy o ffocws ar anghenion dysgwyr a phrofiad y defnyddiwr, cysylltu pynciau er mwyn cael profiad dysgu wedi'i wreiddio'n well, a chynorthwyo dysgwyr i wneud synnwyr o'r cynnwys a rhoi'r dysgu ar waith. Yn ogystal, gall rhai nwyddau dysgu digidol olrhain faint o amser a dreulwyd ar weithgareddau dysgu digidol.

Materion diogelwch a chaniatâd – mae hyn yn parhau'n her, er gwaethaf gwelliannau yn ystod y pandemig. Roedd heriau'n ymwneud â gallu cael at adnoddau sy'n cael eu hatal gan waliau tân a rhwystrau diogelwch eraill, rhannu cynnwys a chydweithredu â sefydliadau allanol, a defnyddio nodweddion penodol ar feddalwedd fel MS Teams a Zoom.

Cynnydd yn nifer yr absenoldebau neu 'heb fynychu' – soniodd cyfranogwyr am gynnydd yn nifer yr absenoldebau yn ddiweddar. Roedd rhai o'r rhesymau a drafodwyd yn cynnwys timau heb ddigon o staff a phwysau ar y gwasanaeth, gan orfodi dysgwyr i roi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaeth a newid cynlluniau ar y funud olaf, yn ogystal â gorflinder sgrin a gwrthwynebiad i ddysgu digidol.



3.3.3 Perthnasoedd a dynameg grŵp

Llai o gyfle i feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau – i weithwyr rheng flaen, mae hyn yn anfantais arwyddocaol, a gall fod yn rheswm allweddol dros wrthwynebu dysgu digidol. Amlygwyd bod methu “gofyn cwestiynau [yn ddigymell], trafod mewn ffordd well a chael y rhyngweithio hwnnw cyn ac ar ôl [sesiynau]” (gweithiwr rheng flaen) yn rhai o’r rhesymau pam roedd rhai gweithwyr rheng flaen yn “edrych ymlaen” at gael mwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae hyn yn debyg i staff nad ydynt ar y rheng flaen sy’n dibynnu ar rwydweithiau i ddatblygu eu gwaith. Mae rhai’n dadlau bod anffurfioldeb cyfarfod â phobl wyneb yn wyneb yn allweddol i roi cyfleoedd i ddod i adnabod pobl ac adeiladu rhwydweithiau.

Llai o ryngweithiadau a dysgu anffurfiol cyfyngedig – gall y gallu i ofyn cwestiynau’n ddigymell a chael trafodaethau anffurfiol fod yn rhan bwysig o’r broses ddysgu. Fel grŵp, gall dysgwyr elwa o’u safbwyntiau ei gilydd ac ehangu eu dysgu. Ar blatfformau digidol, mae rhyngweithiadau digymell ac anffurfiol yn gyfyngedig i raddau helaeth, gan fod y rhan fwyaf o sgysiau’n cael eu cymedroli, eu trefnu ac maent yn fwy ffurfiol.

Rheoli dynameg grŵp – i hyfforddwyr a hwyluswyr, mae’r gallu i ddarllen ymatebion dysgwyr a deall sut maent yn derbyn y cynnwys a sut maent yn rhyngweithio â’u cymheiriaid, yn allweddol i gefnogi profiad cadarnhaol o ddysgu mewn grŵp. Ar sail y rhain, gall yr hwylusydd wirio anghenion a lles dysgwyr, a chynorthwyo trwy ymyriadau bach i sicrhau bod ganddynt sylw dysgwr unigol a thrwy ddulliau mwy uniongyrchol o ymyrryd, fel “eistedd wrth eu bwrdd” (darparwr hyfforddiant) a chefnogi’r drafodaeth hyd nes bod y grŵp yn ôl ar y trywydd cywir.



3.3.4 Sgiliau digidol a llythrennedd digidol

Sgiliau aelodau staff dysgu a datblygu – roedd hyfforddwyr, hwyluswyr a rheolwyr dysgu a datblygu o ALLau a sefydliadau allanol wedi chwarae rhan allweddol yn y newid i ddysgu digidol yn ystod y pandemig. Ymhlith rhai o’r heriau a wynebont yn ystod y pandemig oedd asesu anghenion aelodau staff, dod i adnabod atebion a’r dechnoleg a oedd ar gael, a gorfod ennill sgiliau ar yr un pryd â chefnogi staff eraill. Hefyd, amlygwyd bod “angen o hyd i barhau i ddatblygu sgiliau”, yn enwedig ar gyfer “dulliau mwy rhyngweithiol ac offer newydd” (darparwr hyfforddiant) i wella dysgu digidol.

Llythrennedd digidol – dyma oedd un o’r problemau allweddol yn ystod y pandemig ac mae’n debygol o “barhau yn y ddwy flynedd nesaf fwy neu lai” gan fod trosiant staff yn uchel ac “nid yw’r rhan fwyaf o bobl sy’n cael eu recriwtio o genedlaethau iau ac nid ydynt mor barod ar gyfer gwella sgiliau digidol” (rheolwr y gweithlu). Soniodd cyfranogwyr am y mathau canlynol o heriau yn gysylltiedig â llythrennedd digidol:

- **Sgiliau sylfaenol** – mae staff nad ydynt yn defnyddio cyfrifiaduron a dyfeisiau digidol eraill yn rheolaidd yn wynebu trafferthion “troi dyfeisiau ymlaen”, “defnyddio llygoden a bysellfwrdd” (darparwr gofal cymdeithasol), defnyddio rhaglenni a “chofrestru, mewngofnodi, a llywio” (darparwr hyfforddiant) platfformau digidol.

- **Hyder** – mae rhai staff yn ei chael hi'n anodd defnyddio rhaglenni penodol a “chofrestru, mewngofnodi a llywio” platfformau digidol penodol ond gallant ddefnyddio platfformau digidol yn hyderus yn eu bywyd bob dydd ar gyfer siopa, adloniant a thasgau gweinyddol personol. Yn yr achosion hyn, roedd angen anogaeth ac arweiniad ar aelodau staff i “ennill hyder” ac “annibyniaeth” (darparwr hyfforddiant).

Moesau digidol – mae hyn yn cyfeirio at ymddygiad ar-lein a'r defnydd priodol ar nodweddion cyfathrebu sy'n effeithio ar brofiadau dysgu a rhyngweithiadau ar-lein. Amlygodd cyfranogwyr y problemau canlynol:

- **Cyflwyniad a phroffesiynoldeb** – mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n gysylltiedig â “ffiniau aneglur” rhwng ymddygiadau personol a phroffesiynol fel mynd i sesiynau hyfforddiant “mewn pyjamas, yn y gwely, gyda'u partner wrth eu hymyl” (darparwr hyfforddiant), neu wrth “siopa gyda'r ffôn ar y troli” (Rheolwr y gweithlu).
- **Bod yn bresennol a chymryd rhan** – diffodd eu camerâu a'u microffonau drwy'r amser, a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw fodd. Mae hyn yn rhwystr mawr i hyfforddwyr rhag asesu datblygiad a lles dysgwyr ac, yn aml, mae'n effeithio ar ddynameg y grŵp trwy annog dysgwyr eraill i wneud yr un peth.
- **Lles a chyfrinachedd** – gall moesau digidol gael goblygiadau i les oherwydd gall cyfranogiad a phresenoldeb cyfyngedig (fel yr amlinellir uchod) ostwng gallu hyfforddwyr i fonitro ymatebion dysgwyr i'r cynnwys a gyflwynir (yn enwedig i bynciau sensitif) ac ymyrryd pan fo angen. Hefyd, gall effeithio ar gyfrinachedd trwy leihau gallu hyfforddwyr i ddeall o ba amgylchedd y daw dysgwyr sy'n mynychu'r sesiwn ac a oes pobl o'u cwmpas na ddylent fod yn gwrando ar y trafodaethau.

Cymorth technegol cyfyngedig – amlygodd cyfranogwyr fod mynediad aelodau staff dysgu a datblygu at gymorth technegol i ddatrys problemau, gweithredu technoleg newydd a datblygu sgiliau yn aml yn gyfyngedig. Gwaethygydd hyn yn ystod y pandemig yn sgil y cynnydd yn y galw am gymorth technegol ac mae'n broblem o hyd i rai ALLau a sefydliadau lleol.



3.3.5 Newid diwylliannol

Er mwyn gwreiddio dysgu digidol yn llawn a gwneud y defnydd gorau ohono, dywedodd cyfranogwyr fod angen newid diwylliannol parhaus. Er bod y pandemig wedi newid agweddau sefydliadau at ddysgu digidol, ystyriwyd bod y newid hwn yn parhau o hyd.

Gwrthwynebiad i ddysgu digidol – yng nghymau cynnar y pandemig, roedd gan gyfran o aelodau staff amheuan am effeithiolrwydd dysgu digidol. Yn ôl cyfranogwyr, fe wnaeth y gwrthwynebiad hwn ostwng yn sylweddol wrth i aelodau staff “ddod i arfer a derbyn” (darparwr gofal cymdeithasol) a dechrau gweld manteision dysgu digidol. Er gwaethaf y gwelliannau, amlygodd cyfranogwyr fod gwrthwynebiad gweddilliol o hyd a'i fod yn fwy cysylltiedig nawr ag angen aelodau staff am fwy o ddysgu seiliedig ar berthynas a disgwyl rhai aelodau staff rheng flaen a rheolwyr y bydd pob hyfforddiant yn mynd yn ôl i fod wyneb yn wyneb fel yr oedd o'r blaen.

“Rwy’n hoffi bod yn rhyngweithiol mewn hyfforddiant [...] [a phan mae wyneb yn wyneb] mae pobl eraill o’ch cwmpas a gallwch gyfnewid syniadau â’ch gilydd [...] Gallaf godi senario gyda rhywun, cael sgwrs a gallai rhywun ddweud rhywbeth hollol wahanol [...]. Gallwch ddeall pethau cymaint yn well.”

(Gweithiwr rheng flaen)

Fel y disgrifiwyd uchod, mae hyfforddiant sy’n galluogi rhyngweithiadau digymell rhwng cymheiriaid yn bwysig i’r rhan fwyaf o weithwyr rheng flaen. Mae’n hanfodol bod mwy o gyfleoedd am hyfforddiant seiliedig ar berthynas yn cael eu cynnig trwy ddysgu cyfunol (sesiynau wyneb yn wyneb ochr yn ochr â dysgu digidol) a thrwy ddulliau dysgu digidol arloesol sy’n caniatáu am ryngweithiadau mwy digymell rhwng cymheiriaid yn ystod sesiynau ar-lein.

Dysgu digidol yn ‘ateb sydyn’ yn ystod y pandemig – nododd cyfranogwyr fod rhan o’r gweithlu gofal cymdeithasol o’r farn bod “dysgu digidol yn ateb sydyn i heriau yn ystod y pandemig” (rheolwr y gweithlu). Gallai hyn greu’r disgwyl y bydd pethau’n “mynd yn ôl i’r arfer” (gweithdy rheolwyr y gweithlu), sy’n pwysleisio’r syniad bod dysgu digidol yn ateb dros dro, gan greu’r argraff bod llai o werth buddsoddi amser ac ymdrech mewn ymgiprys ag ef.



3.3.6 Cost dysgu digidol

Mae datblygu adnoddau digidol ar raddfa fechan yn gostus – costau yn gysylltiedig â thrwyddedau meddalwedd a phlatform, datblygu sgiliau, cynhyrchu cynnwys a datblygiadau gwefan i ddatblygu adnoddau dysgu digidol o safon. Yn ogystal, mae angen gwaith cynnal a chadw parhaus, i gadw cynnwys yn gyfredol a mynd i’r afael â materion technegol; nid yw hyn yn gost-effeithiol o’i ddatblygu ar raddfa fechan. Hefyd, mae’n arwain at ddatblygu gwaith, oherwydd mae gan y rhan fwyaf o ALlau bynciau hyfforddiant cyffredin y gellid uno eu cynnwys a’u cyflwyno ar draws y rhanbarthau.

“Mae’r gost yn enfawr [...], petawn ni’n ystyried ei wneud yn fewnol, mae’n cymryd llawer o amser, mae angen tîm pwrpasol i’w wneud, ac mae cael un pecyn bach wedi costio miloedd o bunnoedd i ni [...]. [Cyn y pandemig] roedd cwmnïau’n arfer codi hyd at hanner beth maen nhw’n ei godi nawr.”

(Rheolwr y gweithlu)

Hefyd, amlygwyd bod costau wedi bod yn codi ers dechrau’r pandemig, oherwydd y galw mawr am wasanaethau a nwyddau, ac nid yw costau’n debygol o ostwng yn y tymor byr.

I wneud dysgu digidol yn gost-effeithiol, mae arbedion maint yn perthyn iddo (gweler Adran 3.2, Buddion dysgu digidol), er nid yw’n glir pryd y gwneir yr arbedion hynny.

3.4 Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer dulliau yn y dyfodol

Yn yr adran hon, cyflwynwn rai atebion i'r heriau a nodwyd a ffactorau eraill yr awgrymodd cyfranogwyr y dylid eu hystyried mewn dulliau yn y dyfodol. Trefnir y rhain o dan y tri chategori canlynol.



Fformat dysgu digidol



Cefnogi dysgwyr

IOIO
IOIO

Seilwaith, systemau ac adnoddau



3.4.1 Fformat dysgu digidol

Dull cyfunol – cytunodd cyfranogwyr yn eang mai dull cyfunol yw'r fformat delfrydol ar gyfer dysgu digidol wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, mae angen mwy o drafodaethau am gydbwysedd dysgu wyneb yn wyneb a dysgu digidol, a'r ffactorau i'w hystyried er mwyn diffinio'r dull gorau. Mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys “anghenion dysgwyr a phrofiad y defnyddiwr” (rheolwr y gweithlu), anghenion penodol i bwnc – “rhagnodol/ynghylch protocolau, myfyriol, neu ymarferol” (gweithiwr rheng flaen), ac “anghenion asesu a chost-ffeithiolrwydd” (darparwr hyfforddiant).

Dysgu wyneb yn wyneb lle bo'r angen – amlygodd gweithwyr rheng flaen a darparwyr gofal cymdeithasol bwysigrwydd dysgu wyneb yn wyneb i fynd i'r afael â'r angen am fwy o ddysgu seiliedig ar berthynas. Mae hyn yn gysylltiedig yn bennaf â'r angen i ddysgwyr gael mwy o gyfleoedd i “gymdeithasu a dysgu mewn grwpiau” (gweithiwr rheng flaen) tra'n meithrin perthnasoedd ac ennill “cymorth gan gymheiriaid” hefyd (darparwr hyfforddiant) (gweler Adran 3.3.5 Gwrthwynebiad i ddysgu digidol am fwy o wybodaeth am ddysgu seiliedig ar berthynas).

Pynciau cydgysylltiedig – fel rhan o wella ansawdd dysgu digidol a symud i ffwrdd rhag y math o adnodd “ticio blwch”, awgrymodd cyfranogwyr ganolbwyntio yn fwy ar ddysgu planedig, lle byddai'r pynciau'n perthyn i'w gilydd ac yn gwneud mwy o synnwyr mewn ymarfer. Awgrymwyd hyn mewn dwy ffordd: “plannu” a chynnig hyfforddiant aml-bwnc lle y bo'n bosibl e.e. “cymorth cyntaf a dementia” neu “gydraddoldeb ac amrywiaeth” wedi'i gyfuno â “phob pwnc arall” (gweithdy rheolwyr y gweithlu), a chynnig cymorth ar ôl yr hyfforddiant trwy oruchwyliaeth a sesiynau dilyn i fyny i gynorthwyo dysgwyr i ddeall y gydberthynas rhwng pynciau.

Cyfuno goruchwyliaeth neu anogaeth â dysgu digidol – mae rhoi cyfle i ddysgwyr fyfyr, gwneud synnwyr o'r dysgu a rhoi'r dysgu ar waith “yn bwysig iawn ac mae'n ychwanegu gwerth a phwys” at y deilliannau dysgu. Wrth i'r system newydd ar gyfer datblygiad parhaus ddod ar waith, “dylai fod yn haws i reolwyr weld rhestr yn gyflym o ba hyfforddiant sy'n digwydd ar ddangosfwrdd, felly bydd hynny'n hwyluso'r trafodaethau hynny” (darparwr hyfforddiant) yn ystod goruchwyliaeth.

Sicrhau ansawdd – cododd cyfranogwyr bwysigrwydd cael dull unedig ar gyfer “sicrhau ansawdd a meincnodi” (gweithdy rheolwyr y gweithlu) adnoddau dysgu digidol. Gallai datblygu dull cenedlaethol ar gyfer dysgu digidol, gyda ffocws ar guradu a sicrhau ansawdd y cynnwys a gynigir, hwyluso hyn.

Mwy o gyfleoedd am ddysgu gan gymheiriaid a dysgu annibynnol - cefnogi dysgwyr i gael at fforymau a chymunedau digidol lle y gallant ryngweithio â chymheiriaid a dysgu'n fwy annibynnol. Byddai hyn yn gweithio'n arbennig o dda i aelodau staff â diddordebau mewn pynciau penodol ac sydd â'r bwriad i adeiladu arbenigedd a symud ymlaen yn eu gyrfa. Mae llythrennedd digidol a diffyg amser wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu yn rhwystrau allweddol rhag hyn.



3.4.2 Cefnogi dysgwyr

Hyrwyddwyr digidol - fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, amlygwyd bod dull yr hyrwyddwyr digidol yn ffordd o gynorthwyo dysgwyr â lefel isel o lythrennedd digidol. Cyfeiriodd cyfranogwyr at bwysigrwydd ehangu rhaglenni sy'n cynnig cymorth ar gyfer llythrennedd digidol, yn enwedig gan gydweithwyr sy'n lleol o fewn eu sefydliad. Fodd bynnag, codwyd heriau gweithredu model o'r fath hefyd, gan gynnwys y diffyg cydnabyddiaeth i bobl sy'n rhoi'r cymorth, diffyg amser/capaciti wedi'i neilltuo i'r rôl hon, ac nad oedd digon o hyfforddiant a chymorth ar gael. Ymhlith atebion posibl a awgrymwyd oedd cael “swyddi pwrpasol”, “amser wedi'i neilltuo” (Rheolwr y Gweithlu) ar gyfer y rôl hon, a phe cyn hyfforddiant a chymorth cadarn. Gweler Adran 2.1.2 am ragor o fanylion am hyn.

Cynhwysiant – cynnig opsiynau ar gyfer arddulliau dysgu gwahanol a chaniatáu i ddysgwyr osod cyflymder eu dysgu eu hunain trwy rannu sesiynau'n ddarnau byr, gan alluogi iddynt drefnu'r dysgu o gwmpas eu hanghenion. Mae hyn hefyd yn cynnwys “cynnig cynnwys yn y Gymraeg” (Rheolwr y Gweithlu) a darparu “adnoddau i bobl â nam ar y golwg” (Rheolwr y Gweithlu).

Cymorth cyn ac ar ôl sesiwn – darparu deunyddiau ymlaen llaw, gan groesawu dysgwyr a'u paratoi nhw ar gyfer y sesiwn neu'r modiwl. Hefyd, gallai hyn gynnwys rhai trefniadau ynghylch moesau digidol, gan sefydlu safonau sylfaenol a chyflwyno'r sail resymegol dros hynny. Gallai deunyddiau ar ôl y sesiwn gynnwys gwybodaeth ac adnoddau pellach, ynghyd â gweithgareddau ar ôl yr hyfforddiant – fel cofnodion dysgu ymarfer – i gynorthwyo dysgwyr i roi eu dysgu ar waith.



3.4.3 Seilwaith, systemau ac adnoddau

Dull Cymru gyfan – dyma oedd un o'r awgrymiadau allweddol a wnaed gan nifer o gyfranogwyr i wella cysondeb, ansawdd a hygyrchedd, ac i leihau costau a dyblygu gwaith ar y lefel leol. Byddai'n cynnwys datblygu plattform dysgu Cymru gyfan i gynnal a/neu gyfeirio at weithgareddau hyfforddi a datblygu allweddol, gan ganoli adnoddau a hwyluso cysondeb,

sicrhau ansawdd a meincnodi adnoddau dysgu digidol. Hefyd, amlygodd cyfranogwyr yr heriau y byddai angen eu hystyried i ddatblygu'r dull:

- **Gwleidyddiaeth ar lefel leol a chenedlaethol** – ar hyn o bryd, mae ALLau yn mabwysiadu gwahanol adnoddau a phlatfformau system rheoli dysgu (LMS); byddai angen cefnogaeth arweinwyr ar blatfform Cymru gyfan llwyddiannus a byddai angen penderfyniad cyfunol ar y system a'r dull gorau. Gallai mynd i'r afael â'r heriau hyn olygu y byddai angen i rai ALLau adolygu eu dull a newid eu platfformau, felly, mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei drafod yn eang i ddod i benderfyniad cyfunol, gyda chynlluniau i gefnogi'r ALLau hynny y bydd angen iddynt fuddsoddi mewn unrhyw newidiadau angenrheidiol.
- **Cydnawsedd rhwng platfformau ac adnoddau:** mae angen mapio platfformau ac adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar draws Cymru i asesu'n well y posibilrwydd o integreiddio neu ddatblygu systemau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng platfformau. Y delfryd fyddai datblygu platfform Cymru gyfan a allai gynnal neu gyfeirio, ond a allai reoli dysgu, sicrhau ansawdd a chanolbwyntio ar y profiad dysgu.

Platfform Profiad Dysgu (LXP) a System Rheoli Dysgu – mae LMS yn system y gall gweinyddwyr system neilltuo a dilyn trywydd cynnwys hyfforddiant strwythuredig. I'r gwrthwyneb, mae LXP yn blatfform sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, lle mae'r dysgwr yn dewis ei ddysgu ei hun o gyd-destun mwy personoledig. Mae angen trafodaethau pellach a diffiniad o flaenoriaethau dulliau dysgu digidol yn y dyfodol o hyd, ond cododd rhai cyfranogwyr yr angen i ganolbwyntio ar brofiad y dysgwr (LXP) yn hytrach nag ar reoli dysgu a chydymffurfio (LMS). Yn ôl y cyfranogwyr, gall y diffyg ffocws ar brofiad y dysgwr arwain at ddatblygu adnoddau nad ydynt yn hwylus i'r dysgwr ac sy'n "rhy gymhleth" (gweithiwr rheng flaen) i'w defnyddio ac, ochr yn ochr â diffyg llythrennedd digidol, gall fod yn rhwystr mawr rhag hygyrchedd dysgu digidol (gweler Adran 3.3.1, Ansawdd adnoddau digidol a ffocws ar brofiad y dysgwr i ddysgu rhagor am brofiad y dysgwr).

Mwy o gydweithredu rhwng ALLau – i annog cyfnewid gwybodaeth a chysondeb mewn dulliau lleol ar gyfer dysgu digidol a datblygu'r gweithlu yn ehangach. Yr awgrym yw creu "dull strwythuredig ar gyfer cydweithredu rhwng ALLau" (rheolwr y gweithlu), i rannu profiadau ac atebion ynghyd â chynlluniau strategol ar gyfer dysgu digidol.

Pasbortau dysgu digidol – awgrymwyd bod hyn yn un o'r strategaethau er mwyn caniatáu i aelodau staff gludo'u tystysgrifau ar draws cyflogwyr, gan leihau dyblygu hyfforddiant a chaniatáu i aelodau staff a chyflogwyr ganolbwyntio'n fwy ar ddatblygiad parhaus, yn hytrach na dal i fyny â hyfforddiant gorfodol.

4. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil, gan gyflwyno'r profiadau cadarnhaol, yr heriau, y buddion a'r syniadau ar gyfer dulliau dysgu digidol yn y dyfodol ar gyfer datblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Siaradom â rheolwyr y gweithlu awdurdodau lleol ac arweinwyr rhanbarthol, darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol, rheolwyr Gofal Cymdeithasol Cymru, a gweithwyr rheng flaen. Er bod nifer y gweithwyr rheng flaen a gymerodd ran yn yr ymchwil yn is na'r bwriad, roedd cysondeb a chytundeb ymhlith yr holl grwpiau o gyfranogwyr ynghylch yr heriau a wynebir, atebion posibl a dulliau yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bod cynllunio a dylunio dysgu digidol yn y dyfodol yn cynnwys staff rheng flaen. At hynny, cynigiwn ddiffiniad o ddysgu digidol (Adran 2) sy'n seiliedig ar y llenyddiaeth a adolygwyd a barn y cyfranogwyr. Dyma fan cychwyn da ar gyfer diffiniad mwy cyson i gefnogi trafodaethau yn y dyfodol ar ddysgu digidol yng Nghymru.

Er bod yr hyn y dywedodd pobl wrthym mewn cyfweiliadau a gweithdai yn gyson â'r llenyddiaeth a adolygwyd, canfuom fod y cyfweiliadau a'r gweithdai'n rhoi cyd-destun ychwanegol pwysig ynghylch sut mae dysgu digidol yn cael ei ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol a sut mae'r hyfforddiant a'r cymorth hwnnw'n cael eu trefnu yng Nghymru. Yn hynny o beth, nododd yr adroddiad hwn heriau ychwanegol, galluogwyr ac, yn benodol, atebion i ddysgu digidol yn seiliedig ar farn gwahanol grwpiau swyddi o fewn y system gofal cymdeithasol.

Amlygodd y bobl y siaradom â nhw lawer o wahaniaethau rhwng ardaloedd lleol a mathau o ddarparwyr. Roedd gan rai ohonynt strategaeth a darpariaeth dysgu digidol datblygedig eisoes cyn y pandemig, ac roedd eraill wedi gorfod eu datblygu'n gyflym. Bu mwy o newid diwylliannol mewn rhai mannau nag mewn eraill ac mae mwy o betrustrer yn aros mewn rhai ardaloedd. Felly, mae angen i bob dull gynorthwyo ALLau ar gamau gwahanol, gan gyd-gynhyrchu'r strategaeth dysgu digidol gyda'r rhai sydd wedi cyrraedd mannau gwahanol.

Mae'r argymhellion sydd wedi'u hamlinellu yn y pennod nesaf yn benodol i Gymru, ond bydd rhai o'r rhain yn berthnasol i ddysgu digidol mewn gofal cymdeithasol yn y DU yn ehangach. Trwy gynnwys amrywiaeth o safbwyntiau, datblygwyd set o argymhellion mewn ymgynghoriad â rheolwyr y gweithlu ac arweinwyr rhanbarthol, wedi'u hanelu at bob un o'r pedwar grŵp neu faes gwahanol: lefel polisi a strategol; awdurdodau lleol; darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol; a rheolwyr gofal cymdeithasol a staff.

5. Argymhellion

Mae'r argymhellion wedi'u seilio ar y canfyddiadau a gyflwynir uchod a bwriedir iddynt fod yn gam cyntaf wrth lywio dulliau yn y dyfodol ar gyfer dysgu digidol yng Nghymru. Lluniwyd yr argymhellion hyn yn derfynol gydag arweinwyr rhanbarthol y gweithlu.

5.1 Lefel polisi a strategol

- **Creu dull Cymru gyfan ar gyfer dysgu digidol** - gan gyd-gynhyrchu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ALLau, darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff rheng flaen.
 - **Creu grŵp llywio Cymru gyfan** – gyda chynrychiolwyr o bob rhanbarth, darparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr hyfforddiant allweddol, a chynrychiolwyr allweddol o sefydliadau technegol a seilwaith i oruchwylio'r gwaith o greu plattform dysgu digidol Cymru gyfan. Bydd y grŵp llywio yn allweddol ar gyfer cynnal yr holl ALLau a sefydliadau perthnasol sydd ynghlwm â'r broses, gan roi cyfleoedd i drafod, gwneud penderfyniadau ar y cyd, a rhoi camau gweithredu ar waith yn amserol.
 - **Creu plattform dysgu digidol Cymru gyfan sy'n 'siop un stop'** – i guradu, cynnal a chyfeirio at adnoddau dysgu perthnasol. Dylai'r plattform hwn ganolbwyntio ar brofiad y defnyddiwr (LXP yn hytrach nag LMS), cynhwysiant (a amlinellwyd yn yr adran flaenorol), ac anghenion aelodau staff – fel cyfleoedd i feithrin perthnasoedd a hyblygrwydd – er budd y rhai â llythrennedd digidol.
 - **Creu pasbortau dysgu digidol** – gyda system gyffredinol ar gyfer cofnodi presenoldeb a chwblhau, a diweddariadau am hyfforddiant a hysbysiadau. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cael ei integreiddio â phlattform dysgu digidol Cymru gyfan.
- **Creu cyfleoedd am gydweithredu rhwng ALLau** – i rannu dysgu a safbwyntiau strategol am ddysgu digidol, ac i annog cysondeb mewn dysgu digidol a dysgu cyfunol ar draws Cymru.
- **Rhoi arweiniad ar ddysgu digidol, cyfunol ac wyneb yn wyneb** – rhoi cyngor i ALLau, darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol ar y mathau mwyaf effeithiol/priodol o ddarparu yn ôl anghenion dysgwyr, anghenion y pwnc (rhagnodol/ ynghylch protocolau, myfyriol, neu ymarferol), anghenion asesu a chost-effeithiolrwydd. Hefyd, gallai hyn gynnwys arweiniad ar foesau digidol (e.e. amlinellu'r rhesymau dros gadw camerâu ymlaen a buddion hynny, a sefyllfaoedd pan fydd gwneud hynny'n hanfodol neu'n ddewisol).
- **Ehangu cymorth cyllid** – i ddatblygu sgiliau, cael at gyfarpar, a datblygu seilwaith.

5.2 Awdurdodau lleol

Cefnogi dysgwyr:

- **Datblygu llythrennedd digidol** – hyrwyddwyr digidol (gyda swyddi pwrpasol a/neu oriau wedi'u neilltuo), canolfannau cymorth galw heibio, a hyfforddiant sgiliau sylfaenol.

- **Cydbwysu dysgu digidol a dysgu wyneb yn wyneb** – ar sail anghenion dysgwyr (lles, meithrin perthnasoedd, rhyngweithio, cymorth anffurfiol) yn enwedig (ond nid yn unig) ar gyfer pynciau sensitif fel diogelu.
- **Rhoi amodau sylfaenol i ddysgwyr** – i gael at sesiynau hyfforddiant – amser wedi'i neilltuo, cyfarpar digonol a sgiliau sylfaenol (llythrennedd digidol).
Cefnogi darparwyr:
 - **Parhau â'r cymorth a gynigir a'i ehangu** – i ddarparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu sgiliau digidol a chael at gyfarpar.
 - **Datblygu rhwydweithiau lleol ar gyfer darparwyr hyfforddiant** – i rannu profiadau a dysgu, a chyfrannu at grŵp llywio Cymru gyfan.

5.3 Darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal cymdeithasol

- **Cynyddu'r ffocws ar ddatblygu sgiliau staff dysgu a datblygu** – yn enwedig ar gyfer defnyddio dulliau rhyngweithiol ac arloesol i ddarparu hyfforddiant a datblygu cynnwys.
- **Canolbwyntio ar anghenion dysgwyr** – mabwysiadu ymhellach ddulliau rhyngweithiol o ddysgu digidol a dulliau seiliedig ar brofiadau.
- **Annog dysgwyr i roi eu dysgu ar waith** – e.e. defnyddio cofnodion dysgu ymarfer, dilyn cysylltiadau i fyny, ac arweiniad i reolwyr ar sut i gynorthwyo aelodau staff i roi'r dysgu ar waith.

5.4 Rheolwyr a staff gofal cymdeithasol

- **Dylai rheolwyr gynorthwyo staff i roi dysgu ar waith** – trafod enghreifftiau go iawn yn ystod sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd.
- **Dylai rheolwyr gynorthwyo staff cyn hyfforddiant ac ar ôl hyfforddiant** – i gynorthwyo staff i gael at ddeunyddiau cyn hyfforddiant a chwblhau gweithgareddau ar ôl dysgu, fel cofnodion dysgu ymarfer.
- **Dylai aelodau staff barhau i ddatblygu eu llythrennedd digidol a'u moesau digidol** – mynd ati i geisio cymorth gan gydweithwyr a rheolwyr a defnyddio adnoddau a gynigir gan yr ALI.

6. Cyfeiriadau

Basak, S. K., Wotto, M. and Bélanger, P. (2018) 'E-learning, M-learning and D-learning: Conceptual definition and comparative analysis', *E-Learning and Digital Media*, 15(4), tt. 191–216. doi: 10.1177/2042753018785180.

Blake, H. *et al.* (2022) 'COVID-19 Vaccine Education (CoVE) for Health and Care Workers to Facilitate Global Promotion of the COVID-19 Vaccines.', *International journal of environmental research and public health*, 19(2). doi: <https://dx.doi.org/10.3390/ijerph19020653>.

Bryer, N. a Heledd, B. (2021) *Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant: gwerthusiad proses a theori newid, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 7/2021*. Caerdydd: Cymru. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: <https://lyw.cymru/cymunedau-digidol-cymru-hyder-digidol-iechyd-llesiant-gwerthusiad-proses-theori-newid>.

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Mynd ar-lein: rhwystrau a llwyddiannau wrth ddarparu dysgu ar-lein yn ystod cyfnod clo Haen 4 mis Ionawr 2021*. Comisiynydd Plant Cymru. Ar gael ar: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2021/01/GettingOnline_CYM_270121.pdf.

Cohen, G. and McGill, P. (2020) 'Video-modelling as an effective solution for coaching carers of autistic adults', *Tizard Learning Disability Review*, 25(4), tt. 197–206. Ar gael ar: <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/video-modelling-as-an-effective-solution-for-coaching-carers-of-autistic-adults/r/a1C6f0000063nlfEAA>.

Enback, S. (2020) 'COVID-19 insights: impact on workforce skills', t. 19. Ar gael ar: <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/covid-19-insights-impact-on-workforce-skills/r/a116f00000UpHDPAA3>.

Estyn (2021) *Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol: gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19*. ESTYN. Ar gael ar: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Report%20on%20Remote%20and%20Blended%20Learning%20in%20Post%2016%20cy_0.pdf.

Faustmann, G. *et al.* (2019) 'Which Factors Make Digital Learning Platforms Successful?', *INTED2019 Proceedings*, 1(Ionawr), tt. 6777–6786. doi: 10.21125/inted.2019.1651.

Jenkins, C. *et al.* (2020) 'What is the nature of Mental Capacity Act training and how do health and social care practitioners change their practice post-training? A narrative review', *Journal of Clinical Nursing*. Ar gael ar: <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/what-is-the-nature-of-mental-capacity-act-training-and-how-do-health-and-social-care-practitioners-change-their-practice-post-training-a-narrative-review/r/a1C6f000007QLDgEAO>.

Keenan, J. *et al.* (2020) 'Implementing e-learning and e-tools for care home staff supporting residents with dementia and challenging behaviour: a process evaluation of the ResCare study using normalisation process theory', *Dementia: the International Journal of Social Research and Practice*, 19(5), pp. 1604–1620. Ar gael ar: <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/implementing-e-learning-and-e-tools-for-care-home-staff-supporting-residents-with-dementia-and-challenging-behaviour-a-process-evaluation-of-the-rescare-study-using-normalisation-process-theory/r/a1C6f000005ZskoEAC>.

- Kennedy, S. and Yaldren, J. (2017) 'A look at digital literacy in health and social care', *British Journal of Cardiac Nursing*, 12(9), tt. 428–432. doi: 10.12968/bjca.2017.12.9.428.
- Kobulsky, J. M. *et al.* (2020) 'Virtual coaching for child welfare workers – a tool to promote learning', *Journal of Public Child Welfare*, 14(4), tt. 458–476. Ar gael ar: <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/virtual-coaching-for-child-welfare-workers---a-tool-to-promote-learning/r/a1C6f000005UkVwEAK>.
- Kourgiantakis, T. and Lee, E. (2020) 'Social work practice education and training during the pandemic: disruptions and discoveries', *International Social Work*, 63(6), tt. 761–765. Ar gael ar: <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/social-work-practice-education-and-training-during-the-pandemic-disruptions-and-discoveries/r/a1C6f0000063TgyEAE>.
- Lister, K., Seale, J. and Douce, C. (2021) 'Mental health in distance learning: a taxonomy of barriers and enablers to student mental wellbeing', *Open Learning*, 00(00), tt. 1–15. doi: 10.1080/02680513.2021.1899907.
- Regmi, K. and Jones, L. (2020) 'A systematic review of the factors – Enablers and barriers – Affecting e-learning in health sciences education', *BMC Medical Education*. BioMed Central Ltd. doi: 10.1186/s12909-020-02007-6.
- La Rose, T. and Detlor, B. (2021) 'Social work digital storytelling project: digital literacy, digital storytelling, and the makerspace', *Research on Social Work Practice*, 31(6), tt. 599–609. Ar gael ar: <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/social-work-digital-storytelling-project-digital-literacy-digital-storytelling-and-the-makerspace/r/a1C6f000006ok4PEAQ>.
- Singh, V. and Thurman, A. (2019) 'How Many Ways Can We Define Online Learning? A Systematic Literature Review of Definitions of Online Learning (1988-2018)', *American Journal of Distance Education*, 33(4), tt. 289–306. doi: 10.1080/08923647.2019.1663082.
- Tobi, S. and Liz, B. (2021) *Digital Skills in Adult Social Care*. Ar gael ar: <https://www.skillsforcare.org.uk/Documents/Misc/Digital-Skills-in-Adult-Social-Care-Rapid-Evidence-Review-Mar21.pdf>.
- Uprichard, K. (2020) *E-learning in a new era: enablers and barriers to its implementation in nursing*, 272 *British Journal of Community Nursing*.
- Vindaca, O. and Lubkina, V. (2020) 'Transformative Digital Learning in the Context of Higher Education: Definition and Basic Concepts', *Rural Environment. Education. Personality. (REEP) Proceedings of the 13th International Scientific Conference*, 13(Tachwedd 2019), tt. 177–184. doi: 10.22616/reep.2020.021.
- Wheeler, S. (2012) 'e-Learning and Digital Learning', in *Encyclopedia of the Sciences of Learning*. Boston, MA: Springer US, tt. 1109–1111. doi: 10.1007/978-1-4419-1428-6_431.

7. Atodiad

Methodoleg yr adolygiad o dystiolaeth

Crynodeb o ddiddordebau	<ul style="list-style-type: none"> • effeithiau, buddion, a heriau dysgu digidol i'r gweithlu gofal cymdeithasol • nodi'r pwyntiau dysgu allweddol, yr arferion da, a'r heriau sy'n gysylltiedig â dysgu digidol yn ystod pandemig COVID-19.
Lleoliadau	Lleoliadau gofal cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau preswyl, gofal cartref a byw â chymorth arall.
Cwmpas	Gwasanaethau plant, oedolion ac oedolion hŷn Hyfforddiant a reolir gan reolwyr y gweithlu mewn ALLau Hepgor: Y blynyddoedd cynnar a gofal plant
Dysgu digidol i'r staff gofal cymdeithasol rheng flaen hyn	Gweithwyr gofal cartref Gweithwyr gofal preswyl i blant Gweithwyr gofal preswyl Gweithwyr gofal, swyddogion gofal neu gynorthwywyr gofal Gweithiwr gofal rheng flaen Uwch weithwyr gofal Cynorthwywyr personol Glanhawyr, garddwyr a staff atodol eraill cartrefi gofal Hepgor poblogaeth: Gweithwyr cymdeithasol Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion Rheolwyr Gofalwyr maeth Nyrws gofal cymdeithasol cofrestredig
Terfyn dyddiadau	Ionawr 2020 – Mawrth 2022
Termau chwilio	dysgu digidol hyfforddiant sgiliau e-ddysgu dysgu ar-lein dysgu rhithwir hyfforddiant rhithwir cyfunol hybrid o bell pell/pellter

Sgrinio	Nodom 90 o gyfeiriadau a chawsant eu sgrinio am eu perthnasedd, gan arwain at 29 o gyfeiriadau. Cafodd 22 o gyfeiriadau eu cynnwys yn y ddogfen derfynol.
----------------	---



social care
institute for excellence

Social Care Institute for Excellence
Isosceles Head Office, One High Street
Egham TW20 9HJ



www.scie.org.uk